



Canllaw i Gymorth a Gwasanaethau i Fyfrwyr ag Anableddau

Enw'r Polisi	Canllaw i Gymorth a Gwasanaethau i Fyfrwyr ag Anableddau
Cymeradwy-wyd gan	Bwrdd Rheolwyr Popeth Cymraeg
Dyddiad y cymeradwy-wyd	Chwefror 6ed 2020
Dyddiad Adolygiad	Yn unol ag amserlen Coleg Cambria

Cymeradwy-wyd y polisi hwn yn derfynol ar : Chwefror 6ed 2020

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Alun Heddwyn Jones'.

Alun Heddwyn Jones

Cadeirydd Cyfarwyddwyr Popeth Cymraeg

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Ioan Talfryn'.

Ioan Talfryn



Cod Anabledd

Mae Popeth Cymraeg yn ymrwymedig i sicrhau bod pobl ag anableddau a / neu anawsterau dysgu, yn cael eu trin yn deg. Bydd pob addasiad rhesymol yn cael ei wneud i sicrhau na fydd myfyrwyr ag anableddau, neu rhai dan anfantais fel arall, yn cael eu gwahaniaethu yn eu herbyn.

Cyflwyniad

Pwrpas y wybodaeth a rennir isod yw rhoi gwybod i chi pa gymorth sydd ar gael gan Popeth Cymraeg os oes gennych chi neu rywun rydych yn ei adnabod, anabledd corfforol, nam ar y synhwyrâu neu anhawster dysgu. Efallai eich bod yn gwella o salwch meddwl neu fod angen cymorth arnoch chi gyda Llythrennedd a Rhifedd. Mae cael cymorth, lle bo'n briodol, yn rhan o'ch Hawliau Dysgu. Mae Popeth Cymraeg yn diffinio pobl ag anawsterau dysgu a / neu anableddau fel rhywun sydd angen cymorth gwahanol a / neu ychwanegol i sicrhau mynediad i'w rhaglen astudio

Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae Popeth Cymraeg wedi ymrwymo i egwyddorion ac arferion cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol, ac i weithio gyda'n cymunedau a'n partneriaid i sicrhau dysgu cyfartal a chynhwysol ar gyfer ein holl ddysgwyr. Fel myfyrwyr a staff gyda Popeth Cymraeg byddwn yn:

- Adlewyrchu'r cymunedau amrywiol rydyn ni'n eu gwasanaethu
- Parchu a dathlu gwahanol gefndiroedd a diwylliannau pob dysgwr a staff
- Trin pob dysgwr a staff yn gyfartal ac yn deg
- Sicrhau bod gwasanaethau dysgu a'r coleg ar gael yn rhwydd i bawb
- Herio rhagfarn; ac
- Ni fyddwn yn goddef bwlio nac aflonyddu

Mae Popeth Cymraeg yn gofyn i holl fyfyrwyr a staff ddilyn egwyddorion y polisi hwn ac i gyfrannu at gyflawni'r nodau.

Dechrau Dysgu

Os ydych chi am ymuno ag un o ddsbarthiadau Popeth Cymraeg gallwch:

- gysylltu â ni ymlaen llaw i drafod eich anghenion;
- rhoi gwybod i ni os oes gennych chi anawsterau cyfathrebu a fydd efallai'n gofyn am argraffu testun mewn Braille neu ddarparu arwyddwr;
- ymweld â'n prif ganolfan yn Ninbych, Canolfan Iaith Clwyd, i drafod eich anghenion mewn cyfweiliad personol. Byddwn yn eich helpu i wirio bod ein cyfleusterau'n hawdd i chi eu defnyddio;
- rhoi gwybod i ni ar eich ffurflen gais bod gennych chi anghenion allai effeithio ar eich astudiaethau;
- dweud wrthym ni am eich anabledd / anhawster pan fyddwch yn cofrestru;
- dweud wrthym ni am bobl neu asiantaethau eraill sy'n ymwneud â'ch gofal.

Mae croeso i chi ddod â rhywun gyda chi unrhyw bryd

Gwasanaethau Myfyrwyr

Gallwn eich helpu gyda nifer o broblemau sydd gennych efallai, trwy:

Cymorth Ariannol

Rydym yn cynnig gostyngiadau o rwng 20% a 40% i fyfyrwyr o dan gategorïau penodol sydd wedi'u rhestru ar ein gwefan. Yn ogystal â hynny mae cynllun cymorth ariannol pellach ar gael gan Lywodraeth Cymru i helpu gyda chostau teithio, gofal plant neu brynu adnoddau. Gellir cael manylion am y cynllun hwn fan hyn : <https://learnwelsh.cymru/support/financial-support/>

Cynghori

Os ydych chi'n teimlo'n isel a'ch bod eisiau rhywun diduedd i siarad â nhw, cysylltwch â Ioan Talfryn, Prif Weithredwr Popeth Cymraeg am gymorth ioan@popethcymraeg.cymru / 01745 812287

Mae hwn yn wasanaeth cyfrinachol.

Gofal Plant

Er nad yw Popeth Cymraeg yn trefnu gofal plant yn gyffredinol ar gyfer dosbarthiadau cymunedol (ac eithrio cyrsiau Cymraeg I Rienï neu Glybiau Cwtsh a drefnir ar y cyd â mudiadau eraill) mae cymorth ariannol ar gael gan Lywodraeth Cymru : <https://learnwelsh.cymru/support/financial-support/>

Cymorth Dysgu

Mae Popeth Cymraeg yn ymrwmo i gynnig pob cymorth posib i'n myfyrwyr. Yn y rhan fwyaf o achosion byddwn yn medru cynnig y cymorth sydd ei angen yn fewnol ond os cyfyd achosion ble mae angen cymorth mwy arbenigol ar fyfyrwyr (gweler isod) byddwn yn sicrhau hynny trwy'r gweithdrefnau cefnogi sydd yn cael eu cynnig gan Dîm Cymorth Dysgu Goleg Cambria, ein partner o fewn darpariaeth Dysgu Cymraeg Y Gogledd Ddwyrain.

Beth allwch chi ddisgwyl ei gael gan y Dîm Cymorth Dysgu Coleg Cambria?

Gallwch ddisgwyl cael:

- Gwasanaeth cyfeillgar a chwrtais
- Canfod eich anghenion cymorth dysgu gyda thiwtor Sgiliau Astudio
- Cytundeb Sgiliau Astudio Cymorth Dysgu sy'n nodi'r cymorth dysgu priodol yn gryno
- Tiwtorialau sydd wedi'u trefnu i ddangos dulliau dysgu ac astudio addas i chi
- Cymorth gyda thechnoleg gynorthwyol

- Cyngor a gwirio ar gyfer trefniadau arholiadau
- Cymorth yn yr ystafell ddosbarth, yn unol â'ch anghenion addysgol
- Os oes gennych chi gyflwr meddygol a gafodd ei ddiagnosio, bydd y Cydlynnydd Cymorth Ychwanegol yn llunio Cynllun Gofal
- Gwirio i ganfod tebygolrwydd:
 - a) Anawsterau Dysgu Penodol e.e. dyslecsia
 - b) Straen gweledol (Syndrom Irlen)

Beth a ddisgwylir gennych chi?

Rydyn ni'n disgwyl i bob myfyriwr sy'n dewis cael cymorth dysgu:

- Ddod i bob apwyntiad y cytunwyd arnynt
- Dweud wrthym ni os yw eu hanghenion neu eu hamgylchiadau'n newid

Datgelu: Efallai byddwch yn dewis peidio â datgelu eich anabledd, ond os ydych chi'n dweud wrthym ni fod gennych chi anabledd, neu anghenion eraill, cyn i chi gofrestru a dechrau eich cwrs, yna, byddwn yn ceisio diwallu eich anghenion.

Mae gennych chi hawl i gyfrinachedd hefyd, ond ar ôl i chi ddatgelu gwybodaeth a rhoi eich caniatâd i ni, byddwn yn rhannu'r wybodaeth hon gyda staff eraill y sefydliad, fel bo angen.

Mae'r Popeth Cymraeg yma i sicrhau bod y cymorth priodol ar gael i chi er mwyn i chi allu cyrraedd eich potensial llawn.

Rydyn ni'n gobeithio y byddwch chi'n mwynhau astudio gyda Popeth Cymraeg

Sgiliau Sylfaenol

Os oes gennych anghenion Sgiliau Sylfaenol bydd Popeth Cymraeg yn cydweithio gyda'n partner Coleg Cambria i drefnu cefnogaeth briodol i chi.

Mae gan Goleg Cambria ymagwedd coleg cyfan i wella sgiliau sylfaenol pob myfyriwr. I ddechrau'r broses bydd gofyn i chi gwblhau asesiad cychwynnol a diagnostig. Bydd hyn yn dweud wrthym ni pa gymorth sydd ei angen arnoch i'ch helpu i wella eich sgiliau darllen, ysgrifennu, rhifedd, siarad a gwranddo. Bydd hyn yn eich helpu ar eich prif raglen ac i ennill cymwysterau cydnabyddedig.

Os nad Saesneg yw eich iaith gyntaf, byddwch yn gallu elwa ar y cymorth sydd ar gael gan diwtoriaid Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) profiadol, er mwyn datblygu eich sgiliau.

Cyfleoedd ychwanegol i fyfyrwyr gydag anawsterau dysgu a/neu anableddau

Mae gan Goleg Cambria gyrsiau sydd wedi cael eu cynllunio'n arbennig ar gyfer pobl ag anawsterau a / neu anableddau dysgu. Mae'r cyrsiau Sgiliau Byw'n Annibynnol yn cynnwys gwersi mewn sgiliau sylfaenol, sgiliau bywyd, sgiliau galwedigaethol a sgiliau ar gyfer cyflogadwyedd. Mae'r cyrsiau ar gael ar lefel Cyn-fynediad a lefel Mynediad ac maent yn cael eu cyflwyno ar safleoedd y coleg Llaneurgain ac Iâl. Mae'r cyrsiau hyn yn helpu i feithrin sgiliau ar gyfer annibyniaeth a chyflogaeth â chymorth neu i symud ymlaen i astudio ymhellach.

Rydyn ni'n cydnabod bod llawer o fyfyrwyr yn dysgu'n arafach na'i gilydd a bod angen rhagor o amser a chymorth arnyn nhw i wneud cynnydd. Mae'r cyrsiau hyn yn cael eu cyflwyno mewn grwpiau llai na chysiau prif ffrwd a darperir cymorth addysgol ychwanegol yn y sesiynau trwy ddefnyddio cynorthwyr dysgu. Mae dysgwyr sydd angen cymorth un i un ychwanegol, cymorth cymdeithasol neu feddygol, er enghraifft, i helpu gyda gofal personol neu anghenion cymorth meddygol, yn gallu dod i'r coleg gyda'u gweithwyr cymorth allanol pwrpasol eu hunain. Cysylltwch â Phopeth Cymraeg i gael cyngor ac arweiniad cychwynnol.

Mae Cyrsiau Sgiliau Byw'n Annibynnol / Sgiliau Bywyd yn gyrsiau llawn-amser tri diwrnod yr wythnos am un flwyddyn. Mae myfyrwyr ar y cyrsiau hyn yn gallu cofrestru ar gyfer astudio ychwanegol ar yr un lefel neu symud ymlaen i'r lefel nesaf, hyd at uchafswm o bedair blynedd, ar yr amod bod cwrs addas ar gael. Cynigir llwybrau astudio rhan-amser hefyd. Dim ond os oes digon o alw a digon yn cofrestru y cynhelir y cyrsiau hyn.






I gael manylion am y cyrsiau Sgiliau Byw'n Annibynnol sy'n cael eu cynnig ar hyn o bryd, ewch i'r wefan: www.cambria.ac.uk

Cyfleusterau Canolfannau

	Maes Parcio	Cadair Olwyn 	Lifft 	Toiled Pobl Anabl 	Dolen Glywed 
Canolfan Iaith Clwyd, Dinbych	x	√	Dim angen	√	√
Canolfan Fusnes Bodelwyddan	√	√	√	√	
Canolfan Y Dderwen, Y Rhyl	√	√	√	√	
Gwersyll Gwyliau Salford By The Sea, Y Rhyl	√	√	√	√	
Canolfan Fowlio Gogledd Cymru, Prestatyn	√	√	Dim angen	√	
Eglwys Y Drindod, Prestatyn	x	√	Dim angen	√	
Canolfan Gymunedol Rhuddlan	√	√	Dim angen	√	
Canolfan Ni, Corwen	√	√	Dim angen	√	
Llangollen			Dim angen		
Glyn Ceiriog	x	√	Dim angen	√	

COLEG CAMBRIA LLYSFASI

I gael gwybodaeth a chyngor ffoniwch Claire Jones 01352 841000

	Maes Parcio 	Cadair Olwyn 	Liff 	Toiled Pobl Anabl 	Dolen Glywed 
Bloc Gweinyddol	√	√	√	√	
Bloc yr Hostel	√	√	√	√	
Llyfrgell ac Ieithoedd	√	√		√	
Bloc Dysgu	√	√	√	√	
Bloc Gweithdy	√	√	√	√	
Bloc Peirianneg	√	√	√		
Anifeiliaid Bach ac Adeiladu o'r Newydd	√	√	√	√	√
Canolfan Dysgu Amaeth	√	√	√	√	√

DEDDF DIOGELU DATA 1998

Efallai bydd y wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i ni yn cael ei defnyddio ar ffurf ystadegol gan bartneriaeth Dysgu Cymraeg Gogledd Cymru a'i hanfon ymlaen at Lywodraeth Cymru. Bydd gwybodaeth sensitif yn cael ei defnyddio gan y Rheolwr Cefnogi Dysgu i roi'r cymorth priodol i chi. Byddwn yn cadw gwybodaeth hyd at 6 mlynedd. Byddwn yn diogelu cyfrinachedd materion unigol bob amser.